# Cod ymarfer ar gyfer System Cynrychiolwyr Cyrsiau

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Cod 16: 2018 Fersiwn 1.1
Yn effeithiol: 1 Mawrth 2020

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Mawrth 2020. | 2018 Fersiwn 01. | Atodiad ychwanegol a mân newid i eiriad cyfrifoldebau Ysgol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Undeb y Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 11 Ebrill 2018. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheolau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Cod Ymarfer hwn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel bo'n briodol.

# Cod ymarfer ar gyfer System Cynrychiolwyr Cyrsiau

Mae'r Cod hwn yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau Cynrychiolwyr Cwrs.

## Yr Egwyddorion Sylfaenol

1. Mae Cynrychiolwyr Cwrs yn rhan hanfodol o Brifysgol Bangor. Drwy weithredu system ledled y Brifysgol gyfan, gall Cynrychiolwyr Cwrs roi adborth ynglŷn â chynnwys y cwrs ac asesu, strwythur y cwrs a'r dulliau addysgu/dysgu, a phrofiad academaidd cyffredinol eu cyd-fyfyrwyr. Gellir trosglwyddo adborth o'r fath i'r ysgolion, y colegau, Undeb Bangor (Undeb Myfyrwyr Bangor), Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr (SSLiC), a chyfarfodydd ad-hoc gyda'r staff uwch. Mae'n bwysig cynnwys staff dysgu a gweinyddol yr ysgolion a'r colegau a chael eu cefnogaeth os yw systemau o'r fath am lwyddo.
2. Mae System Cynrychiolwyr Cwrs y Brifysgol wedi'i seilio ar gydweithrediad agos rhwng y maes academaidd (yr ysgolion), Undeb y Myfyrwyr, a'r gwasanaethau canolog. Caiff Cynrychiolwyr Cwrs eu hethol i Bwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgolion. Bydd disgwyl i'r Pwyllgorau Cyswllt ystyried materion a mynd i'r afael â nhw ar lefel y coleg/yr ysgol. Bydd disgwyl i'r Cynrychiolwyr Cwrs fynychu cyfarfodydd Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs a drefnir gan Undeb Bangor. Caiff y materion a ystyrir yng nghyfarfodydd y Cynrychiolwyr Cwrs eu codi gan Swyddogion Undeb Bangor yn y Grŵp Tasg priodol, pwyllgor canolog arall neu aelod perthnasol o staff y Brifysgol.
3. Mae cydweithio rhwng Cynrychiolwyr Cwrs a'r staff academaidd yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r myfyrwyr. Ym Mangor, mae ymgysylltu â'r myfyrwyr yn golygu galluogi'r myfyrwyr i gymryd rhan weithredol o ran datblygu, rheoli a llywodraethu’r Brifysgol, y rhaglenni academaidd a'r profiad dysgu. Cyflawnir hynny drwy weithio mewn partneriaeth ag Undeb Bangor a'r myfyrwyr yn ehangach, a thrwy system gadarn o gynrychiolwyr cwrs sy'n cael cefnogaeth dda.

## Cyfrifoldebau'r Ysgolion

4. Fel rheol, dylai Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Myfyrwyr ym mhob ysgol fod yn gyfrifol am oruchwylio system y Cynrychiolwyr Cwrs. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r Cyfarwyddwr weinyddu'r system os oes cymorth i'w gael gan staff eraill, ond dylai'r Cyfarwyddwr sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd, bod unrhyw faterion a godir yn cael eu hunioni, a bod system y Cynrychiolwyr Cwrs yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Cod yma. Dylai'r Cyfarwyddwr fel arfer gyd-gadeirio Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgol gyda myfyriwr. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y myfyrwyr yn ymwybodol o sut mae'r ysgol yn gweithio gyda'r Cynrychiolwyr Cwrs er mwyn gwella profiad y myfyrwyr yn barhaus, ac os bydd unrhyw newidiadau, dylid rhoi gwybod amdanynt yn eglur i'r myfyrwyr yn gyffredinol.

**Ethol Cynrychiolwyr Cwrs**

5. Dylai'r ysgolion sicrhau bod nifer eu Cynrychiolwyr Cwrs yn adlewyrchu maint, cyfansoddiad a natur yr ysgol, trwy ddilyn Strwythur Cynrychiolwyr Cwrs Undeb y Myfyrwyr.
6. Dylai'r ysgolion sicrhau bod y Cynrychiolwyr Cwrs yn cael eu hethol gan eu cyd-fyfyrwyr gan ddefnyddio system etholiadau ar-lein Undeb Bangor. Mewn amgylchiadau eithriadol, neu os bydd swyddi gwag, caiff yr ysgolion ethol cynrychiolwyr trwy ddulliau eraill.
7. Dylai ysgolion sicrhau, lle bynnag y bo modd:
   - Caiff pob Cynrychiolydd Cwrs israddedig eu hethol yn ystod pythefnos cyntaf Semester Un. Os yw ysgol yn dymuno ethol Cynrychiolwyr Cwrs ym mlynyddoedd 2, 3 a 4 cyn diwedd Semester Dau yn y flwyddyn academaidd flaenorol, caiff wneud hynny ar sail unigol, gyda chytundeb Undeb Bangor.
   - Dylid ethol yr holl Gynrychiolwyr Cwrs ôl-raddedig yn ystod eu pythefnos cyntaf ar eu cyrsiau, a hynny fel arfer yn ystod pythefnos cyntaf Semester Un.
   - Os na chaiff yr holl swyddi eu llenwi yn ystod pythefnos cyntaf Semester Un, ewch ati ar ôl y dyddiad hwnnw i lenwi pob swydd. Caiff yr ysgolion ethol cynrychiolwyr trwy ddulliau amgen – dylid trafod hyn gydag Undeb y Myfyrwyr.
8. Dylai'r ysgolion sicrhau bod yr Uwch Gynrychiolwyr Cwrs (Yr Uwch Gynrychiolwyr) yn cael eu hethol gan Gynrychiolwyr Cwrs trwy ddefnyddio system amserol, dryloyw a chynhwysol. Rhaid i'r system sicrhau'r canlynol:
   - Dylai'r Uwch Reolwyr gael eu hethol o fewn pedair wythnos i Semester Un.
   - Dylai un Uwch Gynrychiolydd gael ei ethol ym mhob ysgol.
   - Os nad yw swydd yr Uwch Gynrychiolydd mewn ysgol wedi'i llenwi o fewn pedair wythnos gyntaf Semester Un, dylid mynd ati ar ôl y dyddiad hwnnw i sicrhau bod y swydd yn cael ei llenwi.

**Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Cwrs**

9. Dylai Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion gyfarfod o leiaf ddwywaith bob semester. Dylid gwahodd Uwch Gynrychiolwyr Cwrs a Chynrychiolwyr Cwrs i'r cyfarfodydd. Dylai'r ysgolion rhoi'r wybodaeth berthnasol am amseroedd a dyddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion i bob cynrychiolydd cwrs mewn da bryd cyn y cyfarfodydd.
10. Dylai hysbysu Cynrychiolwyr Cwrs am drefniadaeth a phrosesau Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion yn y cyfarfod cyntaf ym mhob blwyddyn academaidd.
11. Dylai Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion gael eu cyd-gadeirio gan fyfyriwr ac aelod o'r staff (fel arfer y Cyfarwyddwr Ymgysylltu â Myfyrwyr), ac mi gaiff hynny ei gytuno gan y pwyllgor yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn academaidd. Dylai fod o leiaf dau aelod o'r staff academaidd (heblaw'r cyd-gadeirydd) ar Bwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr pob Ysgol. Ni ddylai nifer y staff sy'n bresennol fod yn fwy na nifer y myfyrwyr.

12. Dylai ysgolion ddilyn yr Agenda Enghreifftiol (Atodiad 01) fel canllaw i sicrhau bod yr holl eitemau perthnasol yn cael eu cynnwys yn ystod pob cyfarfod.
13. Dylid annog yr ysgolion i ddefnyddio Log Monitro Adborth, fel yr un a welwch yn Atodiad 02, i helpu olrhain y newidiadau a wneir fel ymateb i adborth. Dylid rhannu hynny gyda'r holl Gynrychiolwyr Cwrs ac Undeb y Myfyrwyr.
14. Dylid anfon cofnodion Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion at holl Gynrychiolwyr Cwrs beth bynnag fo'u presenoldeb yn y cyfarfodydd, mewn modd amserol.
15. Dylid anfon cofnodion Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion (ac eithrio unrhyw eitemau o fusnes a gadwyd yn ôl, e.e. materion cyfrinachol, sensitif a/neu bersonol) at Gydlynydd Cynrychiolaeth a Democratiaeth Undeb Bangor, mewn modd amserol.
16. Dylid anfon cofnodion Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgol i Fwrdd Astudio'r Ysgol fel adroddiad rheolaidd.
17. Yn ogystal â Phwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr Ysgolion, dylai'r ysgolion sicrhau bod Cynrychiolydd Cwrs (fel arfer yr Uwch Gynrychiolydd Cyrsiau) yn cael ei wahodd i unrhyw gyfarfod ffurfiol lle mae addysgu a dysgu neu brofiad y myfyrwyr yn cael eu trafod yn rheolaidd, e.e. Pwyllgorau Addysgu a Dysgu'r Ysgol / Pwyllgorau Ymchwil ar gyfer myfyrwyr Ôl-raddedig. Rhaid i'r ysgolion hefyd sicrhau bod Cynrychiolwyr Cwrs yn cael eu gwahodd i Fwrdd Astudio'r ysgol. Dylid gwneud ymdrechion i gynnwys Cynrychiolwyr Cwrs mewn cyfarfodydd perthnasol ar lefel y Coleg.

**Cyfathrebu â'r myfyrwyr yn ehangach**

18. Dylai ysgolion arddangos manylion cyswllt eu Cynrychiolwyr Cwrs mewn lleoliadau a ddefnyddir yn aml yn yr ysgol, yn electronig ac ar hysbysfyrddau. Dylai rhoi manylion hysbysfwrdd Cynrychiolwyr Cwrs i bob myfyriwr yn ogystal â rhestr o Gynrychiolwyr Cwrso fewn pedair wythnos i Semester Un.
19. Dylai'r ysgolion roi modd i Gynrychiolwyr Cwrsddosbarthu gwybodaeth i'r myfyrwyr yn ehangach (e.e. gwefan yr ysgol/rhestrau dosbarthu e-byst).
20. Dylai ysgolion (o fewn pythefnos i ddechrau Semester Un) roi rhestr o Gynrychiolwyr Cwrs i Gydlynydd Cynrychiolaeth a Democratiaeth Undeb Bangor. Dylai ysgolion gadw eu rhestr o Gynrychiolwyr Cwrs yn gyfredol a hysbysu Undeb Bangor am unrhyw newidiadau.

**Cefnogaeth i Gynrychiolwyr Cwrs**

21. Argymhellir bod y Cyfarwyddwr Ymgysylltu â Myfyrwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cynrychiolwyr Cwrs ochr yn ochr â'r Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr ffurfiol, er mwyn sicrhau bod y cynrychiolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac i nodi unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd. Dylid cytuno ynglŷn ag amlder y cyfarfodydd hynny gyda'r Cynrychiolwyr Cwrs ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.
22. Os bydd yr ysgolion yn credu nad yw'r Cynrychiolwyr Cwrs yn gwneud y pethau y dylai'r Cynrychiolwyr Cwrs fod yn eu gwneud, dylent hysbysu Cydlynydd Cynrychiolaeth a Democratiaeth Undeb Bangor. Yna dylai Undeb Bangor gysylltu

â'r myfyriwr i weld a oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol arnyn nhw i wneud y rôl.

**Cyfrifoldebau Undeb Bangor (Undeb y Myfyrwyr)**

23. Gwahoddir pob Uwch Gynrychiolydd a Chynrychiolydd Cwrs i fynychu cyfarfodydd Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor. Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs o leiaf ddwywaith y semester a bydd yr Is-lywydd Addysg yn cadeirio.

24. Anfonir crynodeb o bob cyfarfod at yr holl Uwch Gynrychiolwyr a'r Cynrychiolwyr Cwrs beth bynnag fo'u presenoldeb yn y cyfarfodydd.

25. Bydd Undeb Bangor yn darparu tudalennau penodol, gan gynnwys mynediad at adnoddau electronig ar ei wefan i System Cynrychiolwyr Cwrs y Myfyrwyr. Bydd y wefan yn dangos rhestr o enwau holl Gynrychiolwyr Cwrs pob ysgol.

26. Bydd Undeb Bangor yn cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd ynglŷn â chyfarfodydd Cyngor y Cynrychiolwyr i'r Uwch Gynrychiolwyr, Cynrychiolwyr Cwrs a'r Cyfarwyddwr Ymgysylltu â Myfyrwyr yn yr ysgolion fel bo angen.

27. Bydd Undeb Bangor yn darparu llawlyfr electronig gyda gwybodaeth ar gyfer Uwch Gynrychiolwyr a Chynrychiolwyr Cwrs, i gynorthwyo'r myfyrwyr yn eu rôl.

28. Bydd Undeb Bangor yn darparu hyfforddiant ar gyfer Uwch Gynrychiolwyr a Chynrychiolwyr Cwrs sy'n ymwneud â strwythurau, cynrychiolaeth a democratiaeth yr Undeb. Fel rheol, caiff yr hyfforddiant ei gwblhau yn wythnos 3-5 Semester 1. Caiff yr hyfforddiant ei gydlynu gan y Cydlynydd Democratiaeth a Chynrychiolaeth.

29. Bydd Undeb Bangor yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr, a hynny dim hwyrach nag wythnos tri Semester Un, ynghylch yr wybodaeth am yr hyfforddiant a manylion llawlyfr y Cynrychiolwyr Cwrs.

30. Bydd yr Is-lywydd Addysg yn adolygu'r wybodaeth a gaiff gan yr Uwch Cynrychiolwyr, Cynrychiolwyr Cwrs, y colegau a'r ysgolion. Bydd unrhyw faterion a nodir yn cael eu codi gan Swyddogion Undeb Bangor yn y Grŵp Tasg priodol neu bwyllgor canolog arall.

31. Bydd Undeb Bangor yn cysylltu â'r Chynrychiolwyr Cwrs nad ydynt o bosib yn ymgymryd â'u rôl ac yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol iddynt. Os bydd y myfyriwr yn parhau i beidio ag ymgymryd â'u rôlau, bydd Undeb Bangor yn gweithio gyda'r Ysgol a'r Cynrychiolydd Cwrs i gytuno ynglŷn ag ateb i bawb dan sylw, yn unol â phwynt 21 uchod.

**Cyfrifoldebau'r Swyddfa Sicrwydd Ansawdd a Dilysu**

32. Caiff cydymffurfiaeth yr ysgolion a'r colegau â system y Cynrychiolwyr Cwrs yn cael ei fonitro fel rhan o gylch Archwiliadau Ansawdd Mewnol y Brifysgol, gan adrodd i'r Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu. Gall Undeb Bangor gyfeirio problemau brys sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r System Cynrychiolwyr Cwrs y mae angen sylw y tu allan i'r cylch archwilio, at y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).

**Cyfrifoldebau'r Uwch Gynrychiolwyr a'r Cynrychiolwyr Cwrs**

33. Mae disgwyl i Uwch Gynrychiolwyr a Chynrychiolwyr Cwrs wneud y canlynol:
    - Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr.
    - Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor.
    - Mynychu'r hyfforddiant a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr ar System y Cynrychiolwyr Cwrs.
    - Darllenwch Lawlyfr Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor i ddeall eu rôl yn llawn.
34. Dylai Uwch Gynrychiolwyr a Chynrychiolwyr Cwrs hysbysu eu hysgol a Chydlynydd Cynrychiolaeth a Democratiaeth Undeb Bangor ar unwaith os nad ydynt am fod yn Gynrychiolwyr Cwrs.
35. Dylai Cynrychiolwyr Cwrs eu cyflwyno eu hunain i'r myfyrwyr sydd ar y cwrs cyn gynted â phosibl yn Semester Un. Dylai'r Cynrychiolwyr Cwrs gyfathrebu â'r myfyrwyr sydd ar eu cyrsiau i ganfod beth yw'r materion a chyflwyno adroddiad am y canfyddiadau hyn yn ôl i Bwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgol a chyfarfodydd Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor.
36. Dylai'r cynrychiolwyr cwrs gyflwyno gwybodaeth o Bwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgolion a chyfarfodydd Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor i'r myfyrwyr sydd ar eu cwrs.

**Atodiad 1**

## Agenda Enghreifftiol y Pwyllgor Staff Myfyrwyr

**Ysgol**
**Dyddiad**
**Amser**

---

a. Croeso'r Cadeirydd
b. Y staff fydd yn dod
c. Y myfyrwyr fydd yn dod
d. Ymddiheuriadau
e. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

1. Materion yn Codi
2. Adborth i / o Gyngor Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor
3. Pryderon y myfyrwyr / Arferion gorau
   3.1. Addysgu
   3.2. Asesu ac Adborth
   3.3. Adnoddau (e.e. y Llyfrgell, Technoleg Gwybodaeth)
   3.4. Cefnogaeth Academaidd
   3.5. Trefniadaeth a Rheolaeth
   3.6. Datblygiad Personol
   3.7. Arall
4. Sylwadau/Adborth gan grwpiau penodol o fyfyrwyr (tydi'r rhestr ddim yn gynhwysfawr)
   4.1. Myfyrwyr Cyd-Anrhydedd:
   4.2. Myfyrwyr rhyngwladol
   4.3. Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg
   4.4. Myfyrwyr sydd ag anableddau
5. Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu'r NSS
6. PRES / PTES
7. Dilysu Rhaglen
8. Adroddiadau Arholwyr Allanol
9. Unrhyw Fater Arall
10. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

**Atodiad 2**

**Templed y Log Monitro Adborth**

Syniadau ar gyfer y cynllun:

Cynllun 1

| Eitem | Teitl | Blw ydd yn | Thema | Adborth Penodol (Cadarnhaol neu Negyddol) | Penderfyniad/au neu Weithred/oedd | Gweithredu gan bwy ac erbyn pryd? | Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

Cynllun 2

Adborth Myfyrwyr Israddedig Blwyddyn 1

| Eitem | Teitl | Thema | Adborth Penodol (Cadarnhaol neu Negyddol) | Penderfyniad/au neu Weithred/oedd | Gweithredu gan bwy ac erbyn pryd? | Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

Adborth Myfyrwyr Israddedig Blwyddyn 2

| Eitem | Teitl | Thema | Adborth Penodol (Cadarnhaol neu Negyddol) | Penderfyniad/au neu Weithred/oedd | Gweithredu gan bwy ac erbyn pryd? | Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |